*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*
# *RHONDDA CYNON TAF*
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**Bydd cyfarfod o'r CABINET yn cael ei gynnal yn Siambr y Cyngor, Cwm Clydach, CF40 2XX**
**Dydd Iau, 21ain Tachwedd, 2019 am 10.30 am**

**Dolen gyswllt: Hannah Williams – Uned Busnes y Cyngor**
**(Rhif ffôn. 01443 424062)**

**Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn canol Dydd Mawrth, 19 Tachwedd 2019. Rhaid iddyn nhw hefyd gadarnhau ai yn y Gymraeg neu yn y Saesneg y byddan nhw'n annerch.**

**Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, anfonwch e-bost i UnedBusnesGweithredolaRheoleiddiol@rctcbc.gov.uk**

## MATERION I'W TRAFOD

### 1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

Noder:
1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

### 2. COFNODION

Cadarnhau cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2019 yn rhai cywir.

**(Tudalennau 5 - 16)**

**3. AMLOSGIADAU UNIONGYRCHOL**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a'r Gymuned, sy'n cynnig bod y Cyngor yn cynnal cynllun peilot ar gyfer ffi amlosgi is i drefnwyr angladdau sy'n cynnig amlosgiadau uniongyrchol neu syml yn Rhondda Cynon Taf.

**(Tudalennau 17 - 22)**

**4. DATBLYGIADAU O RAN CYLLIDO A DARPARU AR GYFER DYSGU OEDOLION YN Y GYMUNED**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a'r Gymuned, sy'n rhoi gwybodaeth i aelodau o ran dyfodol dysgu oedolion yn y gymuned.

**(Tudalennau 23 - 30)**

**5. LLINELL WAELOD (SYLFAEN) TRETH Y CYNGOR 2020/21**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr – Gwasanaethau Cyllid a Digidol, sy'n gosod yn ffurfiol Linell Waelod (Sylfaen) Treth y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21.

**(Tudalennau 31 - 34)**

**6. ADRODDIAD CYFLAWNIAD Y CYNGOR AM YR AIL CHWARTER**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr – Gwasanaethau Cyllid a Digidol sy'n rhoi crynodeb i'r aelodau am gyflawniad y Cyngor dros chwe mis cyntaf y flwyddyn ariannol hon (hyd at 30 Medi 2019), mewn perthynas â materion ariannol a gweithredol fel ei gilydd.

**(Tudalennau 35 - 58)**

**7. PREMIYMAU TRETH Y CYNGOR – EIDDO GWAG TYMOR HIR AC AIL GARTREFI**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr – Gwasanaethau Cyllid a Digidol, sy'n gofyn i'r Cabinet ystyried cyfnod ymgynghori ffurfiol yn rhan o ymarfer ymgynghori'r Cyngor sydd ar ddod mewn perthynas â chyllideb 2020/21.

**(Tudalennau 59 - 70)**

**8. CEFNOGI BUSNESAU TREF A MANWERTHU YN RHONDDA CYNON TAF – CYNLLUN LLEIHAU TRETHI BUSNES LLEOL**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr – Gwasanaethau Cyllid a Digidol, sy'n rhoi manylion i'r aelodau am Gynllun Lleihau Trethi Busnes newydd arfaethedig, a fydd yn cynorthwyo busnesau canol y dref a busnesau manwerthu wrth dalu trethi busnes yn ystod blwyddyn ariannol 2020/21.

**(Tudalennau 71 - 78)**

**9. DEDDF RHEOLEIDDIO PWERAU YMCHWILIO (RIPA) 2000 – DEFNYDD CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF O RIPA YN 2018/19**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol, sy'n rhoi cyfle i'r Aelodau adolygu defnydd y Cyngor o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (fel y'i diwygiwyd) (RIPA) yn ystod 2018/19.

**(Tudalennau 79 - 82)**

**10. EFFAITH RHEOLIADAU HYGYRCHEDD CERBYDAU GWASANAETH CYHOEDDUS 2000 AR GODI TÂL AM SEDDI SBÂR AR GLUDIANT I YSGOLION PRIF FFRWD NEU GOLEG**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Cyfadran Materion Ffyniant, Datblygu a Gwasanaethau Rheng Flaen, sy'n rhoi diweddariad i'r Cabinet ar effaith Rheoliadau Hygyrchedd Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus 2000 (PSVAR). O 1 Ionawr 2020, bydd y rhain yn cael effaith ar yr arfer o werthu seddi sbâr yn ôl disgresiwn i ddisgyblion/myfyrwyr addysg y brif ffrwd sydd ddim yn gymwys ar gyfer cludiant am ddim i'r ysgol/coleg.

**(Tudalennau 83 - 98)**

**11. ARGYMHELLION GRŴP LLYWIO'R CABINET AR FATERION Y GYMRAEG – RHESTR O ENWAU LLEOEDD SAFONOL CYMRU**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, sy'n cyflwyno argymhellion Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg, a ystyriodd adroddiad o argymhellion diwygiedig Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru.

**(Tudalennau 99 - 150)**

**12. TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD**

"Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf."

**13. CYNON VALLEY WASTE DISPOSAL COMPANY LIMITED AC AMGEN RHONDDA LIMITED – CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol sy'n rhoi manylion am y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol sydd i ddod.

**(Tudalennau 151 - 212)**

**14. CYNLLUN DIRPRWYO'R ARWEINYDD**

Derbyn Cynllun Dirprwyo'r Arweinwyr yn dilyn y diwygiadau diweddar sy'n cynnwys:

- Aelodaeth Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd
- Aelodaeth Grŵp Llywio Pwyllgor Gweithredu Diwylliant a Chelfyddydau Strategol

**15. MATERION BRYS**

Trafod unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.

**Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu**

**Cylchrediad:-**

**Y Cynghorwyr:** Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)
Y Cynghorydd M Webber (Is-gadeirydd)
Y Cynghorydd R Bevan
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd G Hopkins
Y Cynghorydd M Norris
Y Cynghorydd J Rosser
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd C Leyshon

**Swyddogion:** Chris Bradshaw, Prif Weithredwr
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Andy Wilkins (Legal), Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Gio Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Nigel Wheeler, Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen
Paul Mee, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau’r Gymuned.
Richard Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
David Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo’r Cyngor
Simon Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Barrie Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol